Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

Eich cyf . Your ref.
Ein cyf. Our ref – FoI 610

3 Mehefin 2015

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 13 Mai, pan wnaethoch ofyn:

1. *A oes gan y Cynulliad gontract fframwaith i gaffael Apple Computers (Mac, iPad, Ipod a Ffonau Symudol) i Aelodau'r Cynulliad / staff?*
2. *Os mai'r ateb i'r uchod yw nac oes, yna beth yw'r broses i gwmni Cymreig gynnig am y gwaith neu gael ei ystyried fel un o'r cyflenwyr i gymryd rhan yn y broses o gyflwyno dyfynbris?*
3. *Pa gyflenwr(wyr) y mae'r Cynulliad neu ei adrannau yn eu defnyddio i brynu:*

   *IPads Apple*

   *Apple Mac*

   *Gwasanaethau atgyweirio cyfarpar Apple*

   *Gwasanaethau ymgynghori Apple*

   *Hyfforddiant achrededig ac ardystiedig Apple i Aelodau'r Cynulliad / staff a Pheirianwyr Cymorth TG*
4. *Pa gyflenwr y mae'r Cynulliad yn ei ddefnyddio i brynu gwasanaeth Datblygu Cymwysiadau Symudol?*
5. *Pryd mae'r dyddiad adnewyddu contract nesaf i'r gwasanaethau uchod?*
6. *Beth yw cyfeiriad e-bost caffael corfforaethol i gyflenwyr?*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru Buddug.Saer@Assembly.Wales

Deallaf fod Llywodraeth Cymru yn ymateb ar wahân, felly mae'r canlynol yn berthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unig.

1. *A oes gan y Cynulliad gontract fframwaith i gaffael Apple Computers (Mac, iPad, Ipod a Ffonau Symudol) i Aelodau'r Cynulliad / staff?*

Nid oes gan y Cynulliad gontract fframwaith parhaus i gaffael dyfeisiau Apple. Fel arfer, caiff ffonau symudol eu caffael fel rhan o gontract gyda darparwr gwasanaeth ffôn symudol.

2. *Os mai'r ateb i'r uchod yw nac oes, yna beth yw'r broses i gwmni Cymreig gynnig am y gwaith neu gael ei ystyried fel un o'r cyflenwyr i gymryd rhan yn y broses o gyflwyno dyfynbris*

Dylid cyfeirio ymholiadau am gynnal busnes gyda'r Cynulliad Cenedlaethol at Jan Koziel, Pennaeth Caffael yn jan.koziel@assembly.wales

3. *Pa gyflenwr(wyr) y mae'r Cynulliad neu ei adrannau yn eu defnyddio i brynu:*

Rydym wedi defnyddio'r cyflenwyr canlynol dros y tair blynedd diwethaf:

- *IPads Apple* - Computacenter Store / Apple Store
- *Apple Mac* - Computacenter / Western Computer Group Ltd / Apple Store
- *Gwasanaethau atgyweirio cyfarpar Apple* - Western Computer Group Ltd (Apple Mac) / Apple Store (iPads / iPhones)
- *Gwasanaethau ymgynghori Apple* - Western Computer Group Ltd
- *Hyfforddiant achrededig ac ardystiedig Apple i Aelodau'r Cynulliad / staff a Pheirianwyr Cymorth TG* – Digital Media Training (ar gyfer hyfforddiant Final Cut Pro)

4. *Pa gyflenwr y mae'r Cynulliad yn ei ddefnyddio i brynu gwasanaeth Datblygu Cymwysiadau Symudol*

Nid yw'r Cynulliad yn prynu gwasanaethau Datblygu Cymwysiadau Symudol. Cafodd 'App y Cynulliad' ei ffurfweddu yn fewnol gan ddefnyddio llwyfan y Peiriant App.

5. *Pryd mae'r dyddiad adnewyddu contract nesaf i'r gwasanaethau uchod*

Nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol gan nad oes gan y Cynulliad gontract fframwaith parhaus i gaffael dyfeisiau Apple.

6. *Beth yw cyfeiriad e-bost caffael corfforaethol i gyflenwyr*

Jan.koziel@Cynulliad.Cymru

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF